FSA 06/07/01 **EITEM 1.1 AR YR AGENDA, 13 GORFFENNAF 2006**

COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD BWRDD AGORED, 15 MEHEFIN 2006, GWESTY JURY, BRYSTE

Crynodeb Gweithredol

1. Atodir Cofnodion Drafft y cyfarfod Bwrdd agored a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2006 yng Ngwesty Jury, Bryste.

2. Gofynnir i'r Bwrdd **gadarnhau** bod y Cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Cyswllt: Keith Gregory Ffôn: 020 7276 8612 (GTN 276 8612)
Ebost: keith.a.gregory@foodstandards.gsi.gov.uk

Claire Voller Ffôn: 020 7276 8243 (GTN 276 8243)
Ebost: claire.voller@foodstandards.gsi.gov.uk

COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD BWRDD AGORED, 15 MEHEFIN 2006, GWESTY JURY, BRYSTE

SESIWN AGORED, 09:00 - 13:00

Yn bresennol:

Y Fonesig Deirdre Hutton, Cadeirydd
Julia Unwin, Dirprwy Gadeirydd
Richard Ayre
Chrissie Dunn
Maureen Edmondson
Alan Gardner
Valerie Howarth
Christopher Pomfret
Bill Reilly
Ian Reynolds
Sandra Walbran
Nelisha Wickremasinghe

Swyddogion yn bresennol:

John Harwood, Prif Weithredwr
Dr Andrew Wadge, Prif Wyddonydd Dros Dro a Chyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd (eitemau 2.1, 3.1, 3.2 a 4 yn unig)
Alison Gleadle, Pennaeth yr Adran TSE[1](eitemau 3.1 a 3.2 yn unig)
Irene Hill, Adran TSE (eitemau 3.1 a 3.2 yn unig)
Gill Fine, Cyfarwyddwr Dewis Defnyddwyr ac Iechyd Deietegol (eitem 3.3 yn unig)
Rosemary Hignett, Pennaeth yr Adran Faeth (eitemau 3.3 a 3.4 yn unig)
Alan Harvey, Pennaeth yr Adran Gorfforaethol ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd (eitem 3.5 yn unig)
Keith Gregory, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Claire Voller, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Eraill yn bresennol:

Peter Jinman, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Enseffalopathi Sbyngffurf (SEAC) (eitemau 3.1 a 3.2 yn unig)

Cyflwyniad y Cyflwyniad

1. Croesawodd y Cadeirydd bob sylwedydd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod Bwrdd agored.

2. Nododd y Cadeirydd fod ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Graeme Millar a chan aelod newydd o'r Bwrdd, Michael Parker.

[1]Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy

3. Mae gan Michael Parker, na fyddai'n gallu bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd tan fis Medi oherwydd ymrwymiadau blaenorol, gefndir ym maes busnes, cyllid a'r GIG. Ar hyn o bryd, Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty King's College ydyw, cadeiriodd y Pwyllgor Cyllid ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Perfformiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal, Michael yw Cadeirydd Cenedlaethol Grŵp Cyfeirio Craidd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Cyflogwyr y GIG ar hyn o bryd.

4. Croesawodd y Cadeirydd Ian Reynolds i'w gyfarfod Bwrdd agored cyntaf. Mae gan Ian gefndir cadarn ym maes gwyddoniaeth, rheoleiddio a gofal iechyd ac mae wedi dal swyddi gweithredol ac anweithredol ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'n aelod o Goleg Brenhinol y Milfeddygon ac yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol Meddygaeth.

5. Croesawodd y Cadeirydd John Harwood, Prif Weithredwr interim yr FSA, i'w gyfarfod Bwrdd agored cyntaf.

6. Gwahoddodd y Cadeirydd y Dirprwy Gadeirydd i gyflwyno'r cyfarfod. Atgoffodd y Dirprwy Gadeirydd y rhai a oedd yn bresennol a'r rhai a oedd yn gwylio'r gwe-ddarllediad fod Bwrdd yr FSA yn trafod materion o ran polisi yn ei gyfarfodydd agored er mwyn cyflawni ei ymrwymiad i fod yn dryloyw ac yn hygyrch. Byddai cyfle i ofyn cwestiynau yn union ar ôl y sesiwn ffurfiol a gallai'r rhai a oedd yn gwylio'r gwe-ddarllediad anfon cwestiynau i'r Bwrdd hefyd.

7. Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd ei bod yn ofynnol iddynt ddatgan buddiannau cyn trafod eitemau perthnasol.

8. Codwyd un eitem i'w thrafod o dan Unrhyw Fater Arall:

    - Adroddiadau yn y wasg ar glefyd brithyllod a goblygiadau o ran diogelwch y cyhoedd (Valerie Howarth).

Eitem 1 - Cofnodion ac Adroddiadau Llafar

1.1 - Cofnodion y Cyfarfod Agored a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2006, Congress Centre, Llundain.
(FSA 06/06/01)

9. Cytunodd y Bwrdd â Chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2006 yn y Congress Centre, Llundain fel cofnod cywir.

1.2 - Camau yn Codi
(FSA 06/06/02)

10. Nododd y Bwrdd y tabl o gamau gweithredu dilynol.

1.3 - Adroddiad y Cadeirydd

Cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol o ran asid ffolig

11. Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd ei bod wedi cyfarfod ag Andrew Russell (Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws) a Carole Sakowiak (Cymdeithas Ymchwil i Spina Bifida a Hydroceffalws), ers y cyfarfod Bwrdd agored diwethaf. Roedd y Cadeirydd wedi egluro bod SACN[2] wedi oedi cyn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar asid ffolig er mwyn ystyried tystiolaeth sy'n dod i law am ddiogelwch dognau asid ffolig uchel ac er mwyn gallu modelu'r boblogaeth ymhellach. Roedd hyn wedi golygu na allai'r FSA gynnal ymgynghoriad ar y mater hwn ac roedd wedi ysgrifennu i hysbysu'r Gweinidogion Iechyd na fyddai'r Bwrdd mewn sefyllfa i'w cynghori yn yr hydref fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Er bod Andrew Russell a Carole Sakowiak wedi'u siomi oherwydd yr oedi cyn penderfyniad yr FSA, serch hynny, roeddent wedi deall bod hyn yn anochel oherwydd yr angen i ystyried yr asesiad gwyddonol pellach a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd.

Cyfarfod Cloriannu gyda Caroline Flint, AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd

12. Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd ei bod hefyd wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Gweinidog Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd am yr oedi cyn cynnal yr ymgynghoriad ar asid ffolig. Roedd y Gweinidog yn awyddus i weld penderfyniad ar hyn cyn gynted â phosibl ond roedd wedi derbyn y rhesymau dros yr oedi.

13. Roedd y Cadeirydd wedi llongyfarch y Gweinidog ar ran y Bwrdd ar ei dyrchafiad diweddar o fod yn Ysgrifennydd Seneddol i fod yn Weinidog Gwladol dros Iechyd y Cyhoedd. Croesawyd hyn yn arbennig, oherwydd byddai'n sicrhau mwy o ffocws yn y llywodraeth ar iechyd y cyhoedd. Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd y byddai'r Gweinidog bellach yn gyfrifol am waith ar draws y llywodraeth ym maes ymarfer corff hefyd.

Ymweliad â Gogledd Iwerddon

14. Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd ei bod bod ar ymweliad defnyddiol iawn i gyfarfod â staff yr FSA yng Ngogledd Iwerddon ac i gynnal trafodaethau ag Awdurdod Safonau Bwyd Iwerddon a'r Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd - corff i Iwerddon gyfan a sefydlwyd o ganlyniad i Gytundeb Gwener y Groglith. Roedd y tri chorff bellach yn ystyried cynnal digwyddiad ar y cyd yn Nulyn gan ystyried cydweithredu posibl o ran arbenigedd gwyddoniaeth ac ymchwil. Diolchodd y Cadeirydd i Maureen Edmondson a Chyfarwyddwr Gogledd Iwerddon yr FSA a'i staff am sicrhau bod yr ymweliad hwn yn bleserus ac yn ddiddorol.

[2] Pwyllgor Gwyddonol Cynghori ar Faeth

Araith yn Sefydliad y Merched, Caerdydd

15. Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd ei bod wedi cymryd rhan mewn digwyddiad yn Sefydliad y Merched yng Nghaerdydd i lansio dwy fenter ar y cyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Sefydliad y Merched, sef y "Bws Coginio" a "Gadewch i ni Goginio". Roedd hyn yn bartneriaeth effeithiol lle y byddai aelodau Sefydliad y Merched yn gweithio'n uniongyrchol yn y gymuned i roi cyngor a hyfforddiant ym maes sgiliau coginio.

Labelu

16. Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd ei bod wedi cael cyfarfodydd amrywiol â'r diwydiant, gan gynnwys y Ffederasiwn Bwyd a Diod a PepsiCo, yn bennaf i drafod labelu. Roedd y trafodaethau wedi ystyried y diwydiant presennol a safbwyntiau'r FSA a'r ffordd ymlaen. Yn benodol, roedd wedi dweud y byddai'r FSA yn gwneud ymchwil ymhen blwyddyn i ba fathau o labelu a oedd wedi bod fwyaf effeithiol wrth newid ymddygiad defnyddwyr. Byddai trafodaethau parhaus ar sut yr oedd yr FSA yn mynd i wneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Eitem 2 - Adroddiadau gan y Prif Weithredwr

2.1 - Adroddiad y Prif Weithredwr

Ffliw Adar

17. Rhoddodd y Prif Weithredwr y newyddion diweddaraf i aelodau'r Bwrdd ar ddatblygiadau. Roedd ffliw pathogenedd isel adar (H7N3) wedi'i gadarnhau ar dair fferm dofednod yn Dereham, Norfolk, ar ddiwedd mis Ebrill. Roedd cyfyngiadau bellach wedi'u codi ar y ffermydd hyn, ac roedd y safleoedd wedi'u glanhau a'u diheintio. Nid oedd unrhyw achos arall wedi'i ganfod.

18. Y tu allan i'r DU, roedd achosion o ffliw adar mewn dofednod ac adar gwyllt wedi bod yn parhau yn Asia, Affrica ac Ewrop. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yn nifer yr achosion o'r feirws mewn adar gwyllt yn Ewrop wedi'i nodi yn ystod yr wythnosau diwethaf.

19. O ran achosion o ffliw adar ymhlith pobl, roedd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi nodi saith achos o'r feirws mewn teulu estynedig yn Indonesia, ac roedd chwech o'r rhain wedi marw. Roedd amheuon mawr bod achos arall, sef aelod arall o'r teulu a fu farw ar ddechrau mai Mai. Gellid cysylltu pob achos a gadarnhawyd yn y clwstwr yn uniongyrchol ag amlygiad agos a hir i glaf yn ystod cyfnod o salwch difrifol. Er bod achosion cyfyngedig o drosglwyddo'r clefyd o un person i'r llall yn y clwstwr, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y clefyd wedi lledaenu yn y gymuned gyffredinol. Nid oedd prosesau dilyniannu genetig llawn o'r feirws wedi canfod unrhyw dystiolaeth o ailddosbarthu genetig o ran feirysau ffliw pobl neu foch nac unrhyw dystiolaeth o newidiadau mawr. Roedd Sefydliad

Iechyd y Byd wedi dod i'r casgliad nad oedd angen newid lefel bresennol y rhybudd o bandemig.

20. Nododd y Prif Weithredwr mai cyfanswm nifer yr achosion a gadarnhawyd gan Sefydliad Iechyd y Byd yn fyd-eang oedd 225 a bod 128 o bobl wedi marw. Yn ystod y mis diwethaf, roedd yr holl achosion a nodwyd wedi digwydd yn Indonesia, ac eithrio un achos ychwanegol yn yr Aifft ac achos yn Djibouti.

Achos o dorri rheoliadau SRM[3]

21. Hysbysodd y Prif Weithredwr aelodau'r Bwrdd bod DARD[4] yng Ngogledd Iwerddon wedi nodi, ar 16 Mai, bod tua 3cm o linyn asgwrn y cefn SRM wedi'i ddarganfod yn chwarthor blaen buwch Dros Dri Deg Mis a oedd wedi'i dderbyn yn ABP Lurgan. Nodwyd bod y llwyth wedi'i gludo o Amwythig. Dylid bod wedi tynnu llinyn asgwrn y cefn yn y lladd-dy yn Lloegr cyn ei anfon. Felly nid oedd y safle a dderbyniodd y llwyth yn gyfrifol am dorri'r rheoliadau. Gan fod yr achos o dorri'r rheoliadau wedi digwydd mewn safle yn Lloegr, roedd yr MHS[5] wedi lansio ymchwiliad llawn i'r digwyddiad. Roedd hyn wedi canfod bod yr holl brotocolau ar waith, bod pob aelod o staff yn gwbl ymwybodol ohonynt ac na ellid nodi unrhyw ffactorau eraill a gyfrannodd at y digwyddiad. Roedd yr ymchwiliad wedi dod i'r casgliad bod y methiant wedi'i achosi gan wall dynol, yn ôl pob tebyg.

22. Roedd y safle wedi ymateb i'r methiant hwn drwy gyflwyno rhestr wirio i'w brotocol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod o staff oedd yn gyfrifol am dynnu llinyn asgwrn y cefn gadarnhau'n ffisegol nad oedd cribau esgyrn yn rhigol yr asgwrn cefn a chofnodi bod hyn wedi'i wneud. Roedd gwiriad pellach wrth lwytho wedi'i gyflwyno bellach hefyd. Yn ogystal, câi gwiriadau heb eu cyhoeddi a gwiriadau ar hap rheolaidd eu cynnal yn y dyfodol agos yn y lladd-dy hwnnw. Roedd canlyniad y fuwch Dros Dri Deg Mis yn negyddol mewn prawf BSE. Roedd y chwarthor blaen dan sylw wedi'i staenio a'i waredu fel sgîl-gynnyrch anifeiliaid Categori 1. Roedd gweddill y llwyth wedi'i wirio a chadarnhawyd nad oedd SRM ynddo. Rhoddwyd newyddion am y digwyddiad ar wefan yr FSA.

Salmonela mewn wyau

23. Gwahoddodd y Prif Weithredwr y Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd i gyflwyno'r adroddiad ar yr eitem hon.

24. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd aelodau'r Bwrdd fod Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) wedi cyhoeddi adroddiad y diwrnod blaenorol ar arolwg o salmonela mewn ieir a gadwyd i gynhyrchu wyau (heidiau dodwy) ledled Ewrop. Roedd yr arolwg wedi canfod lefelau isel o salmonela mewn heidiau dodwy yn y DU, yn bennaf oherwydd y mesurau effeithiol a gymerwyd gan

[3] Deunydd Risg Penodedig
[4] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
[5] Gwasanaethau Hylendid Cig

ddiwydiant dofednod y DU yn ystod y 10-15 mlynedd diwethaf, gan gynnwys cyflwyno brechiad. Dangosodd arolwg yr FSA ei hun a gyhoeddwyd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf fod y mwyafrif helaeth o wyau a fwyteir yn y DU yn rhydd o salmonela.

25. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd aelodau'r Bwrdd fod yr FSA yn gweithio gyda Defra a'r Comisiwn Ewropeaidd i ymdrin â'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd mewn perthynas ag aelod wladwriaethau eraill. Câi hyn ei drafod mewn cyfarfod yr wythnos nesaf ym Mrwsel. O ran rhai adroddiadau yn y wasg bod yr FSA yn ystyried gwahardd wyau rhag cael eu mewnforio, dywedodd y Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd nad oedd hyn wedi'i ddiystyru, ond nad oedd safbwynt cytûn o ran y ffordd ymlaen ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'r DU yn pwyso ar aelod wladwriaethau eraill i sicrhau eu bod yn rhoi mesurau ar waith i ganiatáu safonau uchel sy'n cyfateb i'r rhai a gyflawnir yma, gan gynnwys cyflwyno brechiad.

Bwrdd Safonau Gwin

26. Atgoffodd y Prif Weithredwr aelodau'r Bwrdd o drafodaethau blaenorol ar drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Safonau Gwin o Defra i'r FSA. Roedd y Bwrdd wedi cytuno eisoes i ymgorffori'r gwaith hwn a phersonél y Bwrdd Safonau Gwin yn yr FSA yn ddarostyngedig i amodau penodol e.e. y dylai'r gwaith newydd fod â synergedd â rôl diogelu defnyddwyr yr FSA, y dylai'r broses drosglwyddo fod yn niwtral o ran costau ac y byddai eu brîff polisi yn trosglwyddo ar yr un pryd. Roedd y Prif Weithredwr yn falch o nodi bod yr holl amodau hyn bellach wedi'u bodloni. O ganlyniad, câi holl waith y Bwrdd Safonau Gwin (gan gynnwys y gost o gyflawni'r gwaith a'r cyfrifoldeb dros gynnal y gofrestr o winllannoedd ym Mhrydain), a'i 10 aelod o staff, eu hymgorffori yn yr FSA o 1 Gorffennaf 2006. Roedd y broses drosglwyddo yn cynnwys swm pro-rata o'r gyllideb ar gyfer y Bwrdd Safonau Bwyd am y flwyddyn ariannol gyfredol.

DVD Eatwell

27. Hysbysodd y Prif Weithredwr aelodau'r Bwrdd fod DVD yr FSA 'Eatwell' (gyda'r cyflwynydd teledu Lorraine Kelly a'r deietegydd Nigel Denby) wedi ennill Gwobr Sgrîn Arian yng Ngwobrau Ffilm a Video Rhyngwladol 2006 yr UD yng nghategori Meddygaeth ac Iechyd: Ymateb i Ofynion Defnyddwyr/Cleifion. Roedd hyn yn gyflawniad mawr o gofio bod dros 1,300 o bobl o dros 30 o wledydd wedi cystadlu am y gwobrau hyn, a gynhaliwyd am y 39ain flwyddyn ac a gydnabyddir yn fyd-eang. Roedd y DVD yn brosiect ar y cyd rhwng timau Cyfathrebu a Maeth yr FSA, ac fe'i cynhyrchwyd i gefnogi'r ymgyrch o ran halen. Fe'i cynlluniwyd i gyflwyno wyth awgrym yr FSA ar gyfer bwyta'n iach mewn ffordd gyffrous ac ar fformat rhaglen deledu yn ystod y dydd a fyddai'n gyfarwydd i ddefnyddwyr.

28. Nododd y Cadeirydd mai dyma'r ail wobr fawr yr oedd yr FSA wedi'i hennill yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf a llongyfarchodd y timau Cyfathrebu a Maeth ar

eu cyflawniad mawr. Dangosodd hyn fod yr FSA yn effeithiol wrth gyflwyno ei negeseuon i ddefnyddwyr.

Eitem 3 - Materion i'w Trafod

3.1 - Clefyd y Crafu Annodweddiadol mewn Anifeiliaid Cnoi Cul Bach: Ystyried y Mesurau Rheoli Risg Rhagofalus Presennol
(FSA 06/06/03)
3.2 - Polisi Wrth Gefn BSE a Defaid
(FSA 06/06/04)

[Cyn trafod yr eitemau hyn, datganodd Alan Gardner fuddiant fel ffermwr defaid. Roedd y Cadeirydd o'r farn bod hyn yn achos perthnasol o wrthdaro buddiannau ac o ganlyniad gadawodd Alan Gardner y bwrdd ac ni chymerodd ran yn y broses o drafod y materion hyn na phenderfynu arnynt. Ar ôl trafod yr eitemau hyn, eglurodd Ian Reynolds ei fod wedi dewis peidio â chymryd rhan pan sylweddolodd, ar ôl i'r trafodaethau ddechrau, y gellid ystyried bod ganddo achos perthnasol o wrthdaro buddiannau[6].]

29. Croesawodd y Cadeirydd Alison Gleadle (Pennaeth yr Adran TSE), Irene Hill (Yr Adran TSE) a'r Prif Wyddonydd Dros Dro i'r bwrdd i gyflwyno'r papurau hyn ac i ateb cwestiynau. Croesawodd y Cadeirydd Ddirprwy Gadeirydd SEAC i'r bwrdd hefyd i roi sicrwydd gwyddonol annibynnol i'r Bwrdd.

30. Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth wyddonol ffeithiol am glefyd y crafu annodweddiadol y diwrnod blaenorol gan Ddirprwy Gadeirydd SEAC.

Clefyd y Crafu Annodweddiadol mewn Anifeiliaid Cnoi Cul Bach: Ystyried y Mesurau Rheoli Risg Rhagofalus Presennol

31. Atgoffodd Alison Gleadle aelodau'r Bwrdd fod clefyd y crafu annodweddiadol yn glefyd yr ymennydd sy'n dirywio mewn defaid a geifr. Mae'n wahanol i glefyd y crafu clasurol (a gydnabuwyd am dros 200 o flynyddoedd ac nad ystyrir ei fod yn peri risg i iechyd pobl) a chafodd ei nodi yn 2002/2003 ar ôl cyflwyno dulliau profi mwy soffistigedig. Ers 2002, roedd 114 o anifeiliaid â haint clefyd y crafu annodweddiadol wedi'u nodi ym Mhrydain Fawr yn sgîl profion mewn lladd-dai defaid dros 18 mis. Ers 2004, pan gyflwynwyd mesurau goddefol i gadw golwg ar glefyd y crafu, nodwyd 5 anifail clinigol drwy brofi anifeiliaid yr amheuwyd eu bod yn dioddef o TSE defaid. Roedd gwaith modelu wedi amcangyfrif y gall fod tua 82,000 o ddefaid o braidd cenedlaethol o tua 35 miliwn wedi'u heintio.

32. Nid yw clefyd y crafu annodweddiadol yn broblem yn y DU yn unig ac fe'i canfuwyd mewn gwledydd eraill.

[6] Dengys Cofrestr Buddiannau Ian Reynolds (SO 06/06/05) fod ei Frawd yng nghyfraith yn berchen ar fferm defaid ac yn ei rhedeg

33. Roedd profion diweddar wedi dangos y gallai haint clefyd y crafu annodweddiadol gael ei throsglwyddo i ddefaid a llygod.[7] Nid oedd unrhyw dystiolaeth eto y gallai gael ei drosglwyddo i bobl, ond ni ellid diystyru hyn eto fel posibilrwydd. Roedd astudiaethau ymchwil ar y gweill ond ni fyddai'r data am y rhain ar gael am beth amser. Ymhlith yr achosion eraill o ansicrwydd a oedd wedi'u hamlygu mewn papurau blaenorol a gyflwynwyd i'r Bwrdd roedd dosbarthu heintusrwydd o fewn meinweoedd defaid, a pha un a oedd achosion o glefyd y crafu annodweddiadol wedi bod yn y praidd cenedlaethol am sawl blwyddyn neu a oedd yn gymharol newydd.

34. Byddai nifer o fesurau rheoli rhagofalus a gyflwynwyd i ddiogelu defnyddwyr rhag y risg o BSE hefyd yn helpu i ddiogelu rhag clefyd y crafu annodweddiadol, sef

- y gwaharddiad ar borthiant,
- tynnu Deunydd Risg Penodedig (SRM),
- nodi anifeiliaid yr amheuir bod y clefyd arnynt yn glinigol
- profion TSE gwahaniaethol ar gyfer BSE a chlefyd y crafu.

Cynhwyswyd amcangyfrifon o gostau economaidd a materion ymarferol i'w goresgyn yn y papur yn Atodiad 1.

35. Roedd trafodaeth gychwynnol ar yr opsiynau hyn wedi'u cynnal â rhanddeiliaid (Atodiad 3) ac mewn grwpiau ffocws gyda defnyddwyr. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd bellach ystyried pa un a ddylid argymell mesurau rhagofalus ychwanegol gan ystyried y dystiolaeth a'r ansicrwydd presennol, diffyg asesiad risg meintiol, y costau a'r cymesuredd, a safbwyntiau cychwynnol rhanddeiliaid.

36. Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau'r Bwrdd at lythyr dyddiedig 9 Mehefin gan Gymdeithas Cyfanwerthwyr Cig yr Alban ac Undeb Ffermwyr Cenedlaethol yr Alban, a oedd wedi'i gyflwyno[8]. Anogodd y llythyr y Bwrdd i weithredu mewn ffordd bragmatig a chymesur wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar y mater hwn, o gofio'r ansicrwydd presennol a'r ffaith nad oes tystiolaeth na gwybodaeth wyddonol gadarn.

37. Wrth drafod y papur, cododd aelodau'r Bwrdd y pwyntiau a'r cwestiynau canlynol:

- Pe bai'n hysbys bod clefyd y crafu annodweddiadol yn bresennol mewn preiddiau defaid mewn gwledydd eraill yn Ewrop, a fyddai cyfyngiadau ar gig a fewnforir yn cael eu cyflwyno a fyddai'n gyson ag unrhyw fesurau domestig a osodid? Yn ogystal, pe bai'r sefyllfa yn newid yn sydyn, a allai'r DU weithredu'n unochrog i ddiogelu ei defnyddwyr?

[7] Mae'r achosion o drosglwyddo'r clefyd i ddefaid a llygod wedi'u gwaethygu'n arbrofol gan frechiad yn yr ymennydd.
[8] Roedd y llythyr hwn wedi'i ddosbarthu eisoes i aelodau'r Bwrdd ar ffurf e-bost ar 12 Mehefin hefyd.

- Roedd angen eglurhad pellach am y cerrig milltir o ran pryd y byddai'r ymchwil yn rhoi tystiolaeth.

- Gofynnwyd am eglurhad am weithgarwch yn y cyd-destun Ewropeaidd. Er enghraifft, a oedd EFSA[9] yn gwneud unrhyw ymchwil i agweddau o ran iechyd y cyhoedd a fyddai'n berthnasol i safbwynt interim y DU a beth oedd yr amserlen?

- Roedd is-grŵp SEAC wedi cytuno nad oedd tystiolaeth o risg i iechyd pobl ond na ellid eithrio risg ddamcaniaethol. Fodd bynnag, roedd dau o'r mesurau rhagofalus posibl yn ymwneud ag oedran defaid, gan olygu bod y risg yn cynyddu wrth i'r anifeiliaid heneiddio. A oedd hon yn rhagdybiaeth gywir?

- Mewn perthynas â'r ffaith nad oes gan Awstralia na Seland Newydd unrhyw achosion wedi'u cofnodi o glefyd y crafu annodweddiadol yn eu praidd defaid (Atodiad 6), a oedd hyn yn gamarweiniol i ddefnyddwyr o gofio na ddefnyddid eu dulliau profi i ganfod clefyd y crafu annodweddiadol, yn ôl pob tebyg? Yn ogystal, o gofio'r ffaith nad oes tystiolaeth am y clefyd ym mhreiddiau defaid Seland Newydd ac Awstralia, a oedd unrhyw ymchwil yn cael ei chomisiynu i nodi pam y gallai hyn fod yn wir, y gallai'r DU ddysgu gwersi defnyddiol ohoni?

- A oedd unrhyw ddealltwriaeth o beth oedd oedran ieuengaf anifail a oedd wedi'i heintio â chlefyd y crafu annodweddiadol?

- A oedd tystiolaeth y gallai clefyd y crafu annodweddiadol gael ei drosglwyddo rhwng preiddiau neu oddi mewn iddynt a allai helpu i lywio penderfyniad y Bwrdd wrth bennu'r camau rhagofalus i'w rhoi ar waith?

- Ni fu unrhyw dystiolaeth hyd yma o achosion o drosglwyddo clefyd y crafu annodweddiadol i bobl. A allai hyn roi tawelwch meddwl neu pa bryd y byddai ffurf ddynol ar y clefyd yn debygol o ddod i'r amlwg?

- Roedd angen prawf cyflymach a rhatach ond a oedd yn ddibynadwy i ganfod clefyd y crafu annodweddiadol. Dylai'r FSA sicrhau hefyd fod ymchwil briodol yn cael ei chomisiynu i ddatblygu hyn.

- Dylai'r FSA fod yn bartner gweithredol gyda Defra wrth adolygu cynllun cenedlaethol clefyd y crafu.

38. Mewn ymateb, cadarnhaodd Alison Gleadle ac Irene Hill:

- Bod rheolaethau TSE yn gweithredu'n gyson ledled y DU. Felly, dim ond pe bai tystiolaeth glir bod broblem yn mynd y tu hwnt i'r hyn y bwriedid i'r

[9] Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop

rheoliadau ymdrin ag ef y byddai'r DU yn gallu ystyried pennu mesurau rhagofalus cenedlaethol. Dim ond ar sail interim y byddai mesurau o'r fath yn bosibl, a hynny hyd nes bod safbwynt yr UE wedi'i egluro ac y cytunwyd arno.

- Roedd cyngor SEAC wedi'i rannu ag EFSA. Roedd EFSA wrthi'n cynnal asesiad o effaith clefyd y crafu annodwediadol ar fesurau presennol i ddileu TSE mewn defaid.

- Roedd yr FSA wedi hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd o'r drafodaeth am glefyd y crafu annodweddiadol yn y cyfarfod Bwrdd hwn a byddai'n trafod hyn ymhellach, fel y bo'n briodol, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yng ngoleuni casgliadau'r Bwrdd.

- Nid oedd unrhyw wersi arbennig y gallai'r DU eu dysgu o'r ffaith nad oedd tystiolaeth o glefyd y crafu annodweddiadol ym mhreiddiau Awstralia a Seland Newydd. Roedd yn ffaith hanesyddol bod unrhyw anifeiliaid a oedd wedi'u heintio â chlefyd y crafu a allforiwyd yno wedi'u difa gan atal y clefyd rhag lledaenu.

- Ni chafodd defaid eu profi'n rheolaidd am TSEs yn Awstralia a Seland Newydd. Fodd bynnag, cafwyd canlyniadau negyddol yn y prawf Bio-Rad a gynhaliwyd yn y nifer fach o ddefaid a oedd wedi'u profi yn Awstralia am resymau arbrofol (a <u>allai</u> ganfod clefyd y crafu annodweddiadol). Cafwyd canlyniadau negyddol yn y profion o'r anifeiliaid o Seland Newydd a ddefnyddiwyd ar gyfer ymchwil yn y DU.

- Roedd yr FSA yn chwarae rhan yn y gwaith o gomisiynu ymchwil. Galwyd am gynigion i ystyried risg clefyd y crafu annodweddiadol i iechyd pobl, ac roedd yr FSA bellach wedi cyrraedd y camau olaf o asesu'r cynigion. Byddai galwadau hefyd y mis nesaf am yr ymchwil pathogenesis (dosbarthu meinwe).

- Ychwanegodd y Prif Wyddonydd Dros Dro ei bod yn hanfodol cynnal y broses hon yn ofalus a'i hagor i wyddonwyr ledled Ewrop. Roedd yn bwysig sicrhau bod yr arbenigedd a'r ymchwil orau posibl yn cael eu comisiynu, yn arbennig o gofio'r terfynau amser hir dan sylw.

- O ran genoteipio hyrddod, roedd Defra wedi gwahodd yr FSA i gymryd rhan yn yr adolygiad.

39. Cadarnhaodd Dirprwy Gadeirydd SEAC fod hwn yn fater cymhleth. Roedd ansicrwydd mawr, a megis dechrau roedd yr ymchwil. O ran terfynau amser, efallai y byddai'r ymchwil gydweithredol â gwledydd eraill yn darparu data rhagarweiniol ymhen 6 mis ar y cynharaf, ond yn yr un modd, gallai gymryd hyd at ddwy flynedd. Dyma natur gwyddoniaeth yn y maes hwn; nid oedd unrhyw atebion cyflym. Digwyddodd y clefyd clinigol fel arfer mewn anifeiliaid hŷn tua 4/5 mlwydd oed. Fodd bynnag, pe bai nifer fwy o anifeiliaid yn cael eu heintio mewn

praidd penodol, gallai hyn wneud yr oedran lle y dangosodd y clefyd symptomau clinigol yn iau. O ran cael tystiolaeth am y gallu i drosglwyddo'r clefyd rhwng defaid, cafwyd anhawster i gael deunydd digonol o'r ansawdd cywir y gellid ei ddefnyddio at ddibenion arbrofol. Cynhelid trafodaethau brwd ar y math o ddeunydd sydd ei angen a sut y gellid cynhyrchu hyn drwy heintio anifeiliaid yn artiffisial. Ond ymchwil hirdymor fyddai hon a byddai'n cymryd nifer o flynyddoedd iddi gynhyrchu canlyniadau. Ar ôl darganfod vCJD[10] yn ystod yr argyfwng BSE, ym maes iechyd pobl, cynhelid gwaith parhaus i fonitro'r posibilrwydd o drosglwyddo'r clefyd i bobl. Roedd y gymuned niwrolegol yn barod drwy'r amser i gydnabod unrhyw adroddiadau o TSEs cysylltiedig mewn pobl a gweithredu arnynt.

40. Wrth ystyried y cynigion ym mharagraff 34 y papur, cododd aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol:

- O gofio'r ansicrwydd mawr, roedd yn bwysig i'r FSA roi gwybodaeth ystyrlon a gweithio'n agos gyda defnyddwyr er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau.

- Er y dylid cyhoeddi'r polisi wrth gefn, dylai'r tîm Cyfathrebu ystyried y dulliau cyflawni mwyaf effeithiol (h.y. nid dim ond y rhyngrwyd) a ffyrdd o egluro'r risg i ddefnyddwyr mewn ffordd fwy effeithiol.

- Roedd y mesurau rhagofalus yn ddigonol ar hyn o bryd, ond roedd angen eu hadolygu o hyd yng ngoleuni tystiolaeth newydd, wrth iddi ddod i law.

41. Yn gryno, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi:

- nodi bod cyngor yr Asiantaeth wedi'i aralleirio i ystyried safbwyntiau rhanddeilliaid a'r grwpiau ffocws defnyddwyr ac y byddai'n cael ei brofi ymhellach;

- nodi y byddai'r wybodaeth gefndir am TSEs mewn defaid ar wefan yr FSA yn cael ei hadolygu;

- nodi bod yr adrannau amaethyddiaeth yn bwriadu adolygu'r Cynllun Genoteipio Hyrddod ac yn croesawu cyfraniad yr FSA i'r broses hon;

- nodi y caiff mesurau i gadw golwg ar glefyd y crafu annodweddiadol eu cynnal er mwyn canfod unrhyw newidiadau yn nifer yr achosion;

- cytuno y dylid parhau i adolygu cyngor ac argymhellion yr Asiantaeth ar fesurau rhagofalus a'u hailgyflwyno i'r Bwrdd pe bai newidiadau mawr yn y ddealltwriaeth o'r risg;

[10] Clefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob

- cytuno y dylid parhau i adolygu datblygiadau ym maes clefyd y crafu annodweddiadol er mwyn gallu mireinio'r polisi wrth gefn wrth i wybodaeth newydd ddod i law, ac y dylid cyhoeddi'r cynllun wrth gefn (angen cadarnhau'r geiriad gydag aelodau'r Bwrdd ymlaen llaw);

Camau i'w cymryd: Alison Gleadle

- yn ogystal, dylid mynd ati ar frys i ystyried comisiynu ymchwil bellach briodol, yn arbennig i ddatblygu prawf diagnostig effeithiol a rhatach ar gyfer clefyd y crafu annodweddiadol, tra'n ystyried yr angen i wneud hynny'n ofalus er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau;

- cytuno y dylai'r Asiantaeth gychwyn trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd o ran a ddylid nodi cig o ddefaid neu eifr hŷn, neu selsig a wneir gan ddefnyddio casinau naturiol o goluddion defaid yn addas er mwyn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg;

- cytuno y dylai'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ystyried y dulliau a'r iaith ar gyfer cyfleu negeseuon, yn arbennig i gyfleu'r risg bosibl sy'n gysylltiedig â bwyta anifeiliaid hŷn.

Camau i'w cymryd: Terrence Collis

Polisi Wrth Gefn BSE a Defaid

42. Atgoffodd Alison Gleadle aelodau'r Bwrdd fod BSE yn glefyd yr ymennydd sy'n dirywio mewn gwartheg. Yn draddodiadol roedd defaid wedi dod i gysylltiad â BSE drwy'r un porthiant halogedig â gwartheg a oedd wedi'u heintio. Gallai defaid gael eu heintio'n arbrofol â BSE ac roedd arwyddion clinigol yn debyg i glefyd y crafu. Fodd bynnag, roedd profion bellach ar gael a allai wahaniaethu rhwng BSE a chlefyd y crafu. Er gwaethaf mesurau cadw golwg helaeth, nid oedd BSE wedi'i nodi mewn defaid hyd yma ond roedd wedi'i nodi mewn gafr yn Ffrainc. Yn sgîl gwaith modelu, amcangyfrifwyd mai'r uchafswm oedd y gallai tua 700 o ddefaid yn y DU fod wedi'u heintio â BSE, ond y sefyllfa fwy tebygol oedd nad oedd dim un wedi'i heintio.

43. Yn y cyfarfod ym mis Ebrill, roedd y Bwrdd wedi cytuno ar ymagwedd raddedig. Roedd modelu yn rhoi'r posibilrwydd o asesu faint y byddai pob ymagwedd yn lleihau risg, er y dylid trin y ffigurau a ddarparwyd yn y papur yn ofalus a'u hystyried yn safleoedd yn hytrach na ffigurau absoliwt. Roedd safbwyntiau rhanddeiliaid wedi llywio'r papur a drafodwyd ym mis Ebrill, ond nid ymgynghorwyd â rhanddeiliaid eto ar fanylion y fframwaith a gynigir ar hyn o bryd.

44. Wrth ystyried cyflwyno ymagwedd sy'n seiliedig ar genoteip, roedd angen ystyried y ffaith bod clefyd y crafu annodweddiadol wedi'i ganfod yn bennaf yn y defaid yr ystyrid bod ganddynt y genoteip sydd â'r ymwrthedd cryfaf i BSE a chlefyd y crafu clasurol. Awgrymodd y papur cyfredol y dylid cyflwyno fframwaith

polisi wrth gefn ar gyfer ymagwedd raddedig pe canfyddid BSE mewn defaid gan ystyried y dystiolaeth gyfredol, asesiadau risg meintiol ac ansicrwydd a'r costau a chymesuredd. Awgrymodd Alison Gleadle y byddai angen adolygu'r strategaeth gyffredinol yn barhaus: byddai angen ailgadarnhau unrhyw agwedd y cytunwyd arni yn awr, gan ystyried yr amgylchiadau ar adeg unrhyw achos o ddarganfod BSE mewn defaid.

45. Cododd aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- A oedd unrhyw dystiolaeth i ategu'r rhagdybiaethau modelu a wnaed yn y papur? Dywedodd Dirprwy Gadeirydd SEAC fod modelu yn seiliedig ar y dystiolaeth orau a oedd ar gael a'i fod yn broses fathemategol sy'n ymdrin â nifer o baramedrau er mwyn asesu'r goblygiadau. Roedd gwyddoniaeth modelu yn datblygu. Roedd y risg o ganfod BSE mewn defaid wedi lleihau dros amser.

- Gofynnwyd am eglurhad o ran sut y byddai BSE yn cael ei drosglwyddo rhwng defaid, a beth oedd ystyr "preiddiau anghysylltiedig"? Cadarnhaodd Dirprwy Gadeirydd SEAC, pe bai BSE yn cael ei ganfod, y cynhelid gwaith ymchwilio epidemiolegol i nodi sut yr oedd yr haint wedi cyrraedd y praidd. Byddai hyn yn ystyried yr holl ffyrdd posibl ac yn nodi unrhyw ffactorau cyffredin.

- Ar ba gam o'r broses o gadarnhau canlyniad cadarnhaol y byddai angen cymryd camau gweithredu? Ymatebodd Alison Gleadle, wedi'i chefnogi gan Ddirprwy Gadeirydd SEAC, drwy ddweud y byddai angen astudio'r ffydd a roddid ar ganfyddiadau o'r fath a fyddai'n dod i'r amlwg mewn cydweithrediad agos â SEAC. Nid oedd yn briodol rhoi terfynau amser ar waith.

- Yn Atodiad D, gofynnwyd am eglurhad o ran pam y byddai dim ond caniatáu i'r defaid hynny dros 12 mis a oedd wedi cael canlyniad negyddol yn y prawf ymuno â'r gadwyn fwyd yn gostwng y risg 60%. Cadarnhaodd Dirprwy Gadeirydd SEAC mai'r rheswm dros hyn oedd ei bod yn annhebygol bod gan anifeiliaid iau lefelau digonol o'r protein prion, sef arwydd clinigol o'r clefyd, i gael canlyniad cadarnhaol mewn prawf.

46. Yn gryno, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi:

- cytuno bod angen cynllun wrth gefn graddedig a bod y papur hwn yn rhoi'r strwythur cyffredinol ar gyfer cynllun o'r fath;

- cytuno y byddai angen gwneud rhagor o waith cyn y gellid cwblhau cynllun o'r fath;

- cytuno bod nifer o achosion o ansicrwydd allweddol ynghylch y mater hwn wedi'u hamlygu, megis

- pryd y gellid nodi canlyniad BSE mewn defaid yn hyderus;
- pryd y dylid defnyddio'r cynllun wrth gefn;
- natur ymchwil epidemiolegol bellach a fyddai'n angenrheidiol er mwyn ystyried nifer yr achosion posibl;
- beth oedd "praidd anghysylltiedig";
- cwestiynau cysylltiedig o ran daearyddiaeth ac amseriad
- cytuno i gyflwyno'r cwestiynau hyn i'r weithrediaeth ac i SEAC.

- cytuno y dylid sefydlu grŵp arbenigol i roi cyngor ar ba fesurau ychwanegol y dylid eu rhoi ar waith i gadw golwg ar y clefyd, pe canfyddid BSE mewn defaid yn y DU, er mwyn gwella'r amcangyfrifon o nifer yr achosion o BSE mewn defaid yn y DU;

- cytuno y dylid parhau i adolygu'r cynllun wrth gefn diwygiedig ar gyfer canfod BSE mewn defaid, fel y'i cyflwynir yn y papur, a'i ailgadarnhau ar frys pe canfyddid BSE mewn gwirionedd mewn dafad yn y DU;

- cytuno y byddai'n ddefnyddiol i'r Tîm Cyfathrebu ystyried y strategaeth ar gyfer cyfathrebu allanol, pe canfyddid BSE mewn defaid yn y DU.

3.3 - Bwyta er iechyd
(FSA 06/06/05)

47. Croesawodd y Cadeirydd Gill Fine (Cyfarwyddwr Dewis Defnyddwyr ac Iechyd Deietegol) a Rosemary Hignett (Pennaeth yr Adran Faeth) i'r bwrdd. Nododd y Cyfarwyddwr Dewis Defnyddwyr ac Iechyd Deietegol y rhaglen waith a oedd wedi'i rhoi ar waith i ymdrin â'r amcanion strategol ym maes iechyd deietegol, a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

48. Nod Bwyta er Iechyd oedd annog defnyddwyr i ddewis deiet iach, gwneud bwyta'n iach yn opsiwn haws a helpu i leihau clefyd sy'n gysylltiedig â deiet. Roedd maeth bob amser wedi bod yn rhan o gylch gwaith yr FSA ac yn ystod y pum mlynedd gyntaf ar ôl ei sefydlu, roedd nifer o fentrau wedi'u dechrau i godi ymwybyddiaeth ac ysgogi camau gweithredu mewn nifer o feysydd allweddol e.e. y rhaglen lleihau halen a'r cynllun gweithredu ar hybu bwyd ymhlith plant.

49. Roedd pwysigrwydd cynyddol maeth wedi'i adlewyrchu yn y Cynllun Strategol y cytunwyd arno gan y Bwrdd yn 2005, ac roedd y thema Bwyta er Iechyd yn cynnwys 13 o dargedau (o gyfanswm o 42). Roedd y Bwrdd wedi adolygu nifer o bolisïau unigol yn ddiweddar (labelu, dognau asid ffolig) ond dyma'r tro cyntaf ers cytuno ar y Cynllun Strategol yn 2005 i'r Bwrdd wneud trosolwg strategol o'r rhaglen Bwyta er Iechyd.

50. Roedd yn bwysig cydnabod nad yr FSA oedd yr unig garfan a ddylanwadodd ar yr agenda o ran maeth; roedd cyfleoedd i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, roedd anfanteision posibl hefyd o ran risgiau o

wrthdaro, a dyblygu ymdrech. Cynhelid amrywiaeth eang o weithgareddau yn y llywodraeth e.e. y Papur Gwyn Choosing Health yn Lloegr, Cynllun Gweithredu Deiet yr Alban, adroddiad Tasglu Gordewdra ymhlith Plant, Fit Futures yng Ngogledd Iwerddon a Bwyd a Lles, strategaeth faethiad yng Nghymru. Roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi lansio Llwyfan Gweithredu ar Ddeiet, Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd hefyd, ac roedd wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd yn y maes hwn yn gynharach yn y flwyddyn.

51. Roedd y sefyllfa yn newid yn gyson. Roedd yn heriol pennu amcanion polisi mewn maes amlochrog, yn arbennig wrth nodi'r dulliau a'r mesurau mwyaf priodol ar gyfer monitro cynnydd. Roedd angen cymorth a chamau gweithredu yn y maes hwn gan randdeilliaid. Golygai hyn fod goblygiadau o ran adnoddau i randdeiliaid yn ogystal â'r FSA.

52. Aeth y Cyfarwyddwr Dewis Defnyddwyr ac Iechyd Deietegol yn ei blaen i amlinellu'r fframwaith cysyniadol o ran sut yr oedd yr FSA yn cyfleu ei negeseuon ym maes maeth, gan gynnwys sut y cyflawnwyd y nod o wella deiet ac iechyd yn y DU (drwy ddylanwadu ar gynhyrchion, pobl a'r amgylchedd), y gweithgareddau a oedd yn sail i'r rhain a'r dystiolaeth a ddefnyddid i lywio gweithgareddau. Cyn adolygiad o'r Cynllun Strategol y bwriedid ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn, canolbwyntid yn y cyfamser ar ailfformiwleiddio, labelu a dognau asid ffolig.

53. Ychwanegodd y Prif Weithredu y cytunid y byddai'r cynllun strategol cyflawn yn cael ei adolygu gan y Bwrdd yn yr hydref. Roedd y drafodaeth heddiw yn rhoi'r fethodoleg sylfaenol ar gyfer mynd i'r afael â'r targedau uchelgeisiol yn y cynllun strategol ar faeth. Yr her uniongyrchol oedd nodi ymyriadau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth, cyn y drafodaeth fanylach ar y cynllun strategol.

54. Cododd aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol wrth drafod y papur:

- Roedd angen rhoi mwy o bwyslais ar annog deiet cytbwys, a chynnwys y negeseuon yn ymwneud â bwyta 5 llysieuyn/ffrwyth y dydd ac asidau brasterog omega 3;

- Roedd angen penodol i gynnwys sefydliadau arlwyo yn y strategaeth, yn arbennig sefydliadau'r llywodraeth megis ysgolion, ysbytai ac ati. Roedd gan y diwydiant gwasanaethau bwys wybodaeth ddefnyddiol am gontractau i ysgolion a'r sectorau preifat;

- Roedd angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r term "amgylchedd", a dylid cynnwys materion o ran cynaliadwyedd mewn gwaith ym maes deiet a maeth;

- Roedd gan yr FSA rôl fel corff rheoleiddio yn hytrach na chorff ymgyrchu;

- Roedd angen ymdrin â'r dylanwadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar ymddygiad defnyddwyr e.e. grwpiau diamddiffyn o ardaloedd cymdeithasol-ddifreintiedig;

- Mewn perthynas â'r adroddiad cynnydd ar dargedau'r cynllun strategol o dan "Bwyta er Iechyd" (Atodiad A), efallai y byddai'n ddefnyddiol pennu dangosyddion dirprwyol i fonitro cynnydd yn fwy effeithiol;

- A oedd camau'n cael eu cymryd i leihau siwgr yn y deiet (fel yr oedd yn wir yng nghyd-destun halen)?

- Rhoddodd yr Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth dystiolaeth allweddol a dylid ei gefnogi;

- Croesawyd y cynnig i gynnal adolygiad llawn o'r fframwaith ar gyfer y cynllun strategol yn yr hydref, gan gynnwys asesiad o gostau mesurau ymyrryd a'u heffeithiolrwydd cymharol.

55. Nododd Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) (fel diweddariad i baragraff 22) fod cefnogaeth gref dros barhau â'r Arolygon Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth yng Nghymru. Roedd cais pellach wedi'i wneud i Gynulliad Cymru i roi adnoddau ar gyfer gwaith samplu pellach. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno hefyd ei bod yn bwysig cynnwys gwaith chwilio'r gorwelion a oedd yn ystyried genomeg maeth a chyngor deietegol y gallai'r FSA ei gynnig e.e. ar fargarîn.

56. Mewn ymateb i'r pwyntiau a'r cwestiynau hyn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Dewis Defnyddwyr ac Iechyd Deietegol fod rôl siwgr yn cael ei hystyried er mwyn gweld beth y gellid ei wneud i helpu defnyddwyr i sicrhau mwy o gydbwysedd o ran calorïau ond roedd trafodaethau yn fwy cymhleth (am eu bod yn ymwneud â charbohydradau) nag ar gyfer y targedau o ran halen, a'u bod yn y cam archwiliadol o hyd. Nododd Rosemary Hignett fod yr FSA yn cydweithio'n agos â darparwyr gwasanaethau bwyd ym maes targedau lleihau halen, ac ystyrid ffyrdd pellach o'u cynnwys.

57. Yn gryno, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi:

- nodi'r amrywiaeth o waith sy'n mynd rhagddo ar yr agenda Bwyta er Iechyd a'r cyflawniadau a'r newidiadau i'r sefyllfa ers cytuno ar y Cynllun Strategol;

- cytuno y dylai'r datblygiadau hyn a datblygiadau eraill ystyried adolygiad o'r Cynllun Strategol yn ystod yr hydref, ond roedd y Bwrdd wedi gofyn am wybodaeth bellach ar yr amrywiaeth o fesurau ymyrryd, ac asesiad o'u cost a'u heffeithiolrwydd cymharol. Roedd angen ystyried ymhellach sut yr oedd yr FSA yn gweithredu fel corff rheoleiddio yn hytrach na chorff ymgyrchu;

- cytuno bod angen gwaith pellach o ran sut y dylid monitro targedau wrth asesu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni canlyniadau.

- cytuno bod angen mawr i ganolbwyntio ar gynnwys y sector arlwyo, gan gynnwys safleoedd bach;

- cytuno y dylai fod gwyddoniaeth glir a chadarn sy'n ategu'r polisïau, yn arbennig o ran dylanwadu ar ymddygiad. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hwn yn faes sy'n symud yn gyflym a bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch datblygiadau yn y dyfodol. Roedd yn bwysig ystyried gwaith chwilio'r gorwelion.

3.4 - Ymateb yr FSA i Ymgynghoriad Ofcom ar Hysbysebion Bwyd i Blant a Ddarlledir

(FSA 06/06/06)

[Cyn trafod yr eitem hon, datganodd Richard Ayre fuddiant fel aelod posibl o un o Bwyllgorau Ofcom. Roedd hefyd yn cael enillion fel cynghorydd ym maes darlledu. Gyda chytundeb y Cadeirydd gadawodd y bwrdd ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth o'r mater hwn na'r penderfyniadau arno.]

58. Gwahoddodd y Cadeirydd Rosemary Hignett (Pennaeth yr Adran Faeth) i gyflwyno'r papur.

59. Atgoffodd Rosemary Hignett aelodau'r Bwrdd fod y Bwrdd wedi trafod cynigion ymgynghori Ofcom ar dynhau rheolaethau ar hysbysebion i blant a ddarlledir yn ei gyfarfod Bwrdd caeedig ar 11 Mai 2006[11] ac wedi cytuno y dylai'r ymateb:

    - ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw un o'r opsiynau a gynigiwyd yn rhoi ymateb digonol i'r pryderon ynghylch deiet plant a'r dystiolaeth am effaith gweithgarwch hyrwyddo ar ddewisiadau ac ymddygiad bwyd plant;

    - dadlau y dylai cyfyngiadau hysbysebu fod yn seiliedig ar fodel proffilio maetholion yr FSA;

    - pwyso am i gyfyngiadau i fod yn gymwys hyd at drothwy 9pm er mwyn diogelu plant hŷn yn ddigonol.

60. Eglurodd Rosemary Hignett fod Ofcom wedi cyhoeddi wedyn ar 19 Mai y byddai'n ymestyn dyddiad cau'r ymgynghoriad i 30 Mehefin er mwyn galluogi ymgynghoreion i ystyried asesiad effaith wedi'i ddiweddaru. Ar 23 Mai, cyhoeddodd Fforwm Cenedlaethol y Galon ei fod yn paratoi cais am adolygiad barnwrol yn erbyn penderfyniad Ofcom i beidio â chynnwys opsiwn yn seiliedig ar drothwy 9pm yn ei phecyn ymgynghori.

[11] Er mwyn cyrraedd dyddiad cau gwreiddiol ymgynghoriad Ofcom, sef 6 Mehefin, ni allai'r drafodaeth hon gael ei chynnal mewn sesiwn agored. Mae cofnod sain o'r drafodaeth hon wedi'i roi ar wefan yr FSA.

61. Nododd Rosemary Hignett fod Ofcom bellach wedi cyhoeddi ei hasesiad effaith wedi'i diweddaru. Nododd hyn ostyngiad o ran budd amcangyfrifedig yr effaith ar blant rhwng 4-15 mlwydd oed. Felly atgyfnerthodd hyn annigonolrwydd y tri opsiwn a gynigiwyd. Gwahoddwyd y Bwrdd i gytuno ar ymateb drafft yr FSA i Atodiad C a ystyriodd y pwyntiau a wnaed yn y drafodaeth flaenorol.

62. Gwnaeth aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol wrth ystyried ymateb drafft yr FSA:

- Roedd yn peri syndod, ar yr un llaw, nad oedd Ofcom wedi llwyddo i fodloni cais yr FSA am estyniad i'r dyddiad cau gwreiddiol er mwyn ei alluogi i drafod y mater yn ei gyfarfod Bwrdd agored ym mis Mehefin ond, ar y llaw arall, roedd wedyn wedi dewis rhoi estyniad hyd at 30 Mehefin ar gais y diwydiant. Dylai llythyr ar wahân ofyn am esboniad am hyn gan Ofcom.

- Dylai fod yn glir y dylid ymgynghori â phob carfan arall â diddordeb ar unrhyw bedwerydd opsiwn a fyddai'n dod i'r amlwg.

- Dim ond un o'r ffyrdd a allai ddylanwadu ar ddewisiadau ac ymddygiad oedd hysbysebion teledu.

63. Nododd Cadeirydd WFAC fod gan WFAC bryderon mewn perthynas â'r dulliau amgen y gallai'r diwydiant eu defnyddio pe bai'r mesurau yn cael eu tynhau. Roedd y Pwyllgor wedi nodi ei fod am ymateb ar wahân i ymgynghoriad Ofcom. Awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd y byddai'n fwy priodol atodi sylwadau WFAC i brif ymateb yr FSA a gofynnodd i Gadeirydd WFAC anfon deunydd priodol i'w gynnwys at Rosemary Hignett.

64. Yn gryno, cytunodd y Bwrdd ar yr ymateb drafft yn amodol ar ychwanegu'r pwyntiau a wnaed yn ystod y drafodaeth uchod gael aelodau'r Bwrdd.

3.5 - Bod yn agored
(FSA 06/06/07)

[Cyn trafod yr eitem hon, datganodd Richard Ayre fuddiant fel cynghorydd ym meysydd rhyddid gwybodaeth a bod yn agored. Roedd y Cadeirydd o'r farn nad oedd hyn yn achos perthnasol o wrthdaro buddiannau ac y dylai Richard Ayre gymryd rhan yn y broses o drafod y mater hwn a phenderfynu arno.]

65. Croesawodd y Cadeirydd Alan Harvey (Pennaeth yr Adran Gorfforaethol ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd) i'r bwrdd gan ei wahodd i gyflwyno'r papur.

66. Eglurodd Alan Harvey fod y papur hwn yn rhagflaenu adolygiad ehangach o ran bod yn agored, a gwahoddodd aelodau'r Bwrdd i wneud rhai penderfyniadau ar unwaith mewn dau faes penodol yn ymwneud â

(i) agor sesiynau briffio'r Bwrdd i'r cyhoedd
(ii) enwi cwmnïau wrth gyhoeddi canlyniadau arolygon yr FSA.

Yn ogystal, gwahoddodd Alan Harvey aelodau'r Bwrdd i leisio unrhyw farn neu nodi unrhyw bynciau y dylid eu cynnwys yn y drafodaeth bellach o ran bod yn agored.

67. O ran agor sesiynau briffio'r Bwrdd i'r cyhoedd, roedd ystyriaethau o ran pa un a oedd yn briodol rhyddhau canfyddiadau ymchwil anghyhoeddedig i'r cyhoedd a pha un a allai arbenigwyr deimlo rhwystr pe bai'n rhaid iddynt gyflwyno'r sesiynau briffio i'r cyhoedd neu i randdeiliaid. Mewn perthynas ag enwi cwmnïau wrth gyhoeddi canlyniadau arolygon yr FSA, nodwyd bod y Weithrediaeth Rheoleiddio Gwell, wrth gyflwyno ei hadroddiad ym mis Hydref 2004, wedi awgrymu nad oedd enwi cwmnïau unigol nad oedd yn dilyn canllawiau arferion gorau yn gyfystyr â "regulatory creep". Mewn ymateb, roedd yr FSA wedi nodi y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y byddai'n cyflwyno canfyddiadau arolygon yn y dyfodol

68. Wrth drafod, gwnaeth aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd yn glir yn y papur pa un a gynigiwyd y dylai sesiynau briffio'r Bwrdd fod yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol neu dim ond rhanddeiliaid. Yn arbennig, nid oedd lefel diddordeb y cyhoedd yn hysbys, a chynhelid sesiynau briffio gyda rhanddeiliaid yn rhan ohonynt eisoes.

- Byddai anawsterau logistaidd wrth agor sesiynau briffio i'r cyhoedd, ond efallai mai cyfaddawd fyddai cyhoeddi copïau a chrynodebau o gyflwyniadau ar wefan yr FSA.

- Roedd rhai aelodau o'r Bwrdd o'r farn y dylid enwi cwmnïau mewn canlyniadau arolygon er mwyn bodloni cylch gwaith statudol yr FSA o fod yn agored ac yn dryloyw. Fodd bynnag, roedd aelodau eraill o'r Bwrdd o'r farn y dylai fod rhai eithriadau i enwi cwmnïau yn achos arolygon arbrofol ac arolygon arferion gorau. Efallai y byddai enwi brandiau yn rhwystro cwmnïau rhag cymryd rhan mewn arolygon lle yr oedd yn rhaid cael canlyniadau ystyrlon a chywir.

- Roedd yr FSA wedi bodoli ers dros chwe blynedd ac felly roedd angen adolygiad sylfaenol o ran bod yn agored a oedd yn ystyried y nodau, effeithiolrwydd gwaith cyflawni, a'r risgiau a'r mesurau lliniaru. Yn ogystal, dylai hyn gynnwys adolygu cost-effeithiolrwydd cyfarfodydd Bwrdd agored, sut yr oedd yr FSA yn ymwneud ag adrannau eraill o'r llywodraeth a datblygiadau o ran bod yn agored yr oedd sefydliadau eraill wedi'u cyflawni y gallai'r FSA ddysgu ohonynt.

- Dylid ystyried yr holl fframwaith ar gyfer ystyried y rhesymau dros fod yn agored, y risgiau a'r manteision mewn un o gyfarfodydd y Bwrdd, yn hytrach na chyfyngu'r drafodaeth i ddau bwynt penodol a gwmpesir gan y papur presennol.

- Gofynnodd Cadeirydd Bwrdd yr MHS a allai'r drafodaeth yn y dyfodol gynnwys yr MHS, gan fod hwn yn rhan annatod o strategaeth yr FSA ar fod yn agored.

69. Eglurodd y Prif Weithredwr, o gofio pwysigrwydd materion eraill i'w trafod a'r cyfyngiadau amser, nad oedd wedi bod yn bosibl trefnu trafodaeth lawn ar fod yn agored y tro hwn. Felly roedd wedi penderfynu nodi'r ddau gwestiwn penodol a oedd wedi'u cyflwyno, sef (a) agor sesiynau briffio'r Bwrdd i'r cyhoedd, a (b) enwi cwmnïau. Byddai'r drafodaeth ehangach ar fod yn agored yn cael ei gohirio tan ar ôl adolygu Cynllun Strategol yr FSA yn yr hydref. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd wedi egluro na ellid gwneud penderfyniad ar y ddau fater penodol hyn ar eu pen eu hunain: roedd angen dadansoddiad o'r darlun ehangach o ran bod yn agored yn gyntaf. I'r perwyl hwnnw, byddai fframwaith ehangach i'w drafod bellach yn cael ei baratoi a fyddai'n cynnwys ystyriaeth o sut yr oedd adrannau eraill o'r llywodraeth a sefydliadau eraill, yn y DU a ledled Ewrop, yn ymdrin â bod yn agored. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth ffeithiol am y cyfreithiau sy'n effeithio ar fod yn agored, a chost-effeithiolrwydd mesurau.

70. Yn gryno, atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd o'r cais i gyflwyno unrhyw awgrymiadau o ran gwybodaeth gefndir a fyddai'n ddefnyddiol yn y drafodaeth i'r Ysgrifenyddiaeth. Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi cytuno:

- y dylid trefnu trafodaeth lawnach a mwy strategol ar fod yn agored yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a fyddai'n seiliedig ar bapur a oedd yn dadansoddi polisïau a gweithdrefnau'r FSA o gymharu â sefydliadau tebyg ac o gymharu ag "arferion gorau";

- byddai angen i'r drafodaeth gwmpasu gwaith yr MHS, a'r FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a glynu wrth egwyddorion cynaliadwyedd y Bwrdd, gan gynnwys cost-effeithiolrwydd;

- yn y cyfanswm, dylai'r polisïau presennol ynghylch sesiynau briffio'r Bwrdd[12] ac enwi brandiau neu gwmnïau bwyd barhau.

Eitem 4 - Unrhyw Fater Arall

<u>Adroddiadau yn y wasg ar glefyd brithyllod a goblygiadau o ran diogelwch y cyhoedd</u>

71. Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd i'r bwrdd.

72. Nododd y Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd fod y clefyd (septisemia gwaedlifol feirysol) wedi'i ganfod mewn rhai brithyllod fferm. Roedd y safleoedd lle y canfuwyd y clefyd wedi'u glanhau a'u diheintio, ac ni chaniatawyd i unrhyw gynnyrch arall fynd i mewn i'r ffermydd. Roedd yr FSA wedi trafod y risg gyda'r arbenigwyr amgylcheddol ar y corff epidemiolegol. Roeddent wedi cadarnhau nad oedd unrhyw oblygiadau i iechyd y cyhoedd am mai dim ond ar dymereddau isel y mae'r feirws yn goroesi, a dim ond derbynyddion sy'n bresennol mewn

[12] Gwahoddir rhanddeiliaid i sesiynau briffio'r Bwrdd pan fyddant yn gwneud cyfraniad.

pysgod a all eu derbyn. Fodd bynnag, câi'r sefyllfa ei hadolygu'n barhaus ac roedd y grŵp epidemiolegol cyfrifol yn cynghori'r Prif Swyddog Meddygol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

73. Trefnwyd cynnal y cyfarfod agored nesaf yng Nghaerdydd ar 13 Gorffennaf 2006.